**ADRAN 9 - DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFORDD 1984**
**RHYBUDD O WNEUD GORCHYMYN ARBROFOL**

**CYNGOR SIR FYNWY**
**(GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG)**
**PARTH CERDDWYR A BEICWYR**
**(YSGOL GYNRADD A MEITHRINFA CANTREF, CANTREF, SIR FYNWY)**
**GORCHYMYN TRAFFIG 2020**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod **CYNGOR SIR FYNWY** yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Coronafirws) (Diwygiad) (Cymru) 2020, Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y Ddeddf"), fel y'i diwygiwyd, Rhan IV o Atodlen 9 i'r Ddeddf ac o'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, wedi gwneud Gorchymyn Arbrofol a ddaw i rym ddydd Llun 30ain o Dachwedd 2020 ac a fydd yn parhau mewn grym am ddim mwy na 18 mis.

**EFFAITH Y GORCHYMYN** fydd gosod:

**PARTH CERDDWYR A BEICWYR**

I wahardd unrhyw gerbyd modur (ac eithrio deiliaid Trwydded Parth Ysgol ar gyfer Parth AH a Deiliaid Bathodyn Pobl Anabl) rhag mynd i mewn neu ymlaen ar hyd Ffordd Harold (am ei hyd cyfan) yn ystod tymor yr ysgol, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30 - 9.00yb a 3.00 - 3.40yh

Os caiff ei wneud yn barhaol, bydd y Gorchymyn yn cael yr effaith o ddiwygio Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Fynwy (Amryw Ffyrdd) (Rheoleiddio Traffig a Therfyn Cyflymder) 2019, yn yr ystyr y bydd yr Atodlenni Map a bennir yn yr Atodlen Gyntaf yn cael eu diwygio a mewnosodir yr Atodlen Fap a bennir yn yr Ail Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn a mapiau sy'n dangos y darnau o ffyrdd yr effeithir arnynt ar-lein yn https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cyngor-sir-fynwy-deddf-rheoleiddio-traffig-ffordd-1984/ neu fel arall cysylltwch â laurabazely@monmouthshire.gov.uk i gael copi o'r cynllun.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw un o'i ddarpariaethau ar y sail nad yw ef neu hi o fewn y pwerau a roddir gan y Ddeddf, neu fod gan unrhyw ofyniad yn y Ddeddf neu unrhyw gyfrwng a wneir o dan y Ddeddf na chydymffurfiwyd ag ef, caiff y person hwnnw, cyn pen chwe wythnos o ddyddiad yr hysbysiad hwn wneud cais at yr Uchel Lys at y diben hwnnw.

Daw'r Gorchymyn i rym ddydd Llun y 30ain o Dachwedd 2020 a bydd yn parhau i fod ar waith am gyfnod o hyd at ddeunaw mis. Os bydd darpariaethau'r Gorchymyn yn parhau i weithredu am gyfnod o chwe mis o leiaf, bydd y Cyngor yn ystyried maes o law a ddylid parhau i ddarparu'r Gorchymyn arbrofol mewn grym am gyfnod amhenodol trwy Orchymyn parhaol. Gall unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu gwneud Gorchymyn at ddibenion parhad amhenodol o'r fath, cyn pen chwe mis ar ôl i'r Gorchymyn ddod i rym, anfon datganiad yn ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad a'r seiliau y mae'n cael ei wneud i Bennaeth Swyddog Cyfreithiol a Monitro yn Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA neu drwy e-bost at laurabazely@monmouthshire.gov.uk gan ddyfynnu'r cyfeirnod Gorchymyn (Parth Cerddwyr a Beicwyr Arbrofol) (Ysgol Gynradd a Meithrinfa Cantref, Cantref, Sir Fynwy) 2020.

Yn sgil Adran 11 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984, bydd unrhyw berson sy'n torri cyfyngiad neu waharddiad a osodir dan Adrannau 9 a 10 y Ddeddf yn euog o drosedd.

Dyddiad: 23ain Tachwedd 2020

**ATODLENNI MAP**

| ATODLEN GYNTAF | AIL ATODLEN |
|---|---|
| Mapiau wedi'u diwygio | Mapiau i'w mewnosod |
| AV55 | AV55 A |
| AV56 A | AV56 B |